Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro
15 Rhagfyr 2021

Presennol: S. Edwards (Cadeirydd), J. Roberts; A. Mummery, A. Jones, G. C. Jones, G. Parry, I Gruffydd, R. M. Jones, Catherine Morris Roberts, D. Jones (2), Anwen Le Cras - Clerc - cofnodi

		Gweithred
1.0	**Ymddiheuriadau:** D. Jones, M. Jones	
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb –** Dim	
3.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod 30/11/2021**	
3.1	Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan G. Parry ac A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.	
4.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**	
4.1	Wales and West heb gadarnhau bris i symud y darllenydd nwy ar hyn o bryd.	Clerc
4.2	**Cwmni Corona** – Disgwyl balans terfynol ar gyfer y 'economy 7'.	Clerc
4.3	Pwynitau gwefru – Jackie Lewis Menter Mon yn cysylltu gyda G.C. Jones yn y flwyddyn newydd.	G C Jones
4.4	Arwydd ir defibrillator – yn y proses o gael ei archebu.	A .Jones / S Edwards
4.5	**Band Eang ir CCTV** – gwaith trefnu yr archwiliad ar y gweill.	Clerc
4.6	**Arolwg Maes Chwarae** – Angen trefnu i gwmni i gynnal archwiliad ffurfiol a chreu adroddiad.	Clerc
4.7	**Y Gorlan** – Cais am gyllideb 2022/2023 pwyllgor yn cyfarfod yn mis Ionawr.	Pwyllgor Cyllid/Clerc
4.8	**Rhandiroedd/Fynwent** -Gwahoddiad gan y Cyngor Bro i'r Eglwys ar Capel i gyfarfod ar y safle, hyn i gael ei drafod ymhellach yn y flwyddyn newydd.	J. Roberts, G. Parry, D.Jones
4.9	**PWLB –** Y benthyciad o £85,000 wedi'i dderbyn, yr arian ar gyfer gorffen gwaith adeiladu i'r neuadd ac i adnewyddu toeau y pafiliwn, clwb bowlio a cwt y gofalwr.	
4.10	Ad daliadau i'w hawlio gan gwmni Corona, TAW a CSYM – Clerc yn gweithredu ar hyn o bryd, anfoneb CSYM i mewn, costau llwybrau angen cael ei brosesu.	Clerc
4.11	**Tir Ger Y Toiledau –** Dim yn gallu symud ymlaen ar hyn o bryd gan ein bod yn disgwyl y Land Registry. Adam Roberts wedi cysylltu gyda S Edwards yn dweud fe fydd yna graen ar gael os oes angen symud rywbeth un rywdro, angen cydweithio.	Clerc
5.0	**Taliadau mis Rhagfyr**	
5.1	Rhy fuan i'r taliadau ddod i mewn ar hyn o bryd.	
5.2	**Cyflogau –** A. LeCras i weithredu	Clerc
5.3	**Ysgol Feithrin –** Anfoneb y plymwr wedi cael ei dalu - £566.70, anfoneb goleuadau a fan - £90.00. Angen gwylio y gwariant, fe fydd angen atgyweirio drysau a ffenestri yn 2022/2023 ac efaillai y ffens yn 2023/2024.	
5.4	**Goleuadau Nadolig –** Disgwyl anfoneb ar gyfer y goleuadau Nadolig, G. Parry wedi bod yn eu atgyweirio ar ol y gwyntoedd mawr.	
6.0	**Diweddariad gwaith adeiladu Neuadd Goffa –** S. Edwards wedi ymweld ar neuadd, edrych yn wych, gofod eithriadol o dda. S. Edwards yn diolch yn fawr iawn i bawb am ei gwaith caled yn ystod y misoedd diwethaf. A. Jones – Mesurydd Nwy-dim diweddariad ar hyn y bryd, efallai gwneud rywbeth dros dro, disgwyl amcan bris ar gyfer y gwaith.	Clerc

	A. Mummery – Wedi cael gwybod bod dodrefn swyddfa a dodrefn ystafelloedd cyfarfod ar gael yn Canolfan Byron. Clerc i drefnu be sydd angen.	
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**	
7.1	**Canolfan Iechyd –** A. Mummery yn siomedig mai ond 5 lle a 2 le parcio ychwanegol sydd. Dim yn gwneud defnydd or goedwig, angen gofyn be ydi'r bwriad yn y dyfodol. G.C. Jones yn dweud y bydd yn broblem ei gadw yn dwt fel ac y mae ar hyn o bryd. J. Roberts yn croesawy y datblygiad ond yn bryderus am y lle parcio gan fod yna dir y buasai yn gallu cael ei ddefnyddio. S. Edwards i gael cyfarfod i geisio cael atebion ag i godi y pryderon gan y Cyngor Bro. Clerc i ymateb ir cais.	
8.0	**Penderfyniadau Cynllunio**	Clerc
8.1	Maes Y Don – Ehangu ac addasu yr annedd.	Clerc Newydd
9.0	**Pwyllgorau allanol – adroddiadau er gwybodaeth**	
9.1	**Rhandiroedd –** D. Jones yn rhoi diweddariad; wedi derbyn e-bost gan Dewi or Cyngor Sir sydd wedi cael y wybodaeth y bydd angen gwario y pres erbyn Chwefror 2023. Fe fydd yna bot arall o bres dros £16,000. Angen sefydlu grwp yn y flwyddyn newydd i er mwyn symud ymlaen.	D. Jones
10.0	**Cyngerdd Nadolig**	
10.1	S. Edwards yn gofyn y cwestiwn a oedd yn syniad gohirio y cyngerdd oherwydd y cynnydd yn yr achosion COVID ar yr Ynys ac efallai gwneud cyngerdd Gwanwyn. Trafodaeth na penderfyniad yr unigolion oedd mynychu. Clerc am bostio ar y cyfryngau cymdeithasol yn atgoffa pawb or rheolau. J.Roberts yn cynnig bod y cyngerdd yn cario ymlaen A. Mummery yn eilio.	Clerc
	Cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 1 Chwefror 2022 am 7:00yh yn rhithiol ar Zoom	